


Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 12 Mehefin i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 17 Gwanwyn 2005



***Gweinidog***
Parch R W Jones
Haddef
6 Maes Afallen
Bow Street
(01970 828006)

***Ysgrifennydd***
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147)

### *Gair gan y Gweinidog*

Fe ddywedir mai gwendid a phechod yw ‘balchder’. Ond byddaf yn gofyn i mi fy hun ar adegau, “A oes y fath beth â ‘balchder haeddiannol’”? Rwy’n gobeithio bod, oherwydd, wrth ystyried y misoedd diwethaf, dyna a deimlaf – balchder!

A gaf fi egluro? Ychydig cyn y Nadolig, aed â nifer fawr o focsys o’r Garn i Wrecsam fel ein cyfraniad ni tuag at ‘Operation Christmas Child’. Yna, fe ddaeth y Tsunami erchyll yn Asia, ac ymatebodd y Garn a’r Ofalaeth i’r trychineb hwn gyda haelioni mawr. Yna, ychydig wythnosau wedyn, daeth Mr Eric Harries gyda’i fan, a gwelwyd ei llenwi gyda bocsys bwyd a swm dda o arian tuag at dalu am y petrol. A welir bai arnaf am deimlo’n falch? Gweddïo rwyf fod yr anghenus wedi derbyn bendith o’r haelioni.

Ond fe ddaeth loes yn nes adref. Collwyd Alun Davies ar drothwy’r Nadolig ac ers hynny fe gollwyd tri Aelod arall, sef John Pryse Rees, Matthew Henry Evans a Cyrus Evans. Daeth profedigaeth i ran tri Aelod, sef Gwynant Evans (colli mam), Marian Beech Hughes (colli tad), a Dewi Hughes (colli mam). Rwy’n siŵr fod Aelodau’r Garn eto wedi rhoi, – y tro hwn, nid rhoi nwyddau ac arian, ond rhoi cymdeimlad, rhoi gair o gysur, rhoi ysgwydd i bwyso arni!

Ac yn y ddau roi yma, caf gipolwg ar yr hyn sy’n gwneud Eglwys. A welir bai arnaf am fod yn falch?

*Robert W Jones*

## Mehefin

| | |
|---|---|
| **5** | Parch Nicholas Bee |
| 10 | Te Bethlehem am 6.30 o’r gloch |
| **12** | Yr Athro Alwyn Roberts |
| **19** | Bugail<br>Cymun yn oedfa’r bore |
| **26** | Melfydd George |
| | Gŵyl Ysgolion Sul Henaduriaeth Gogledd Aberteifi<br>Mabolgiamocs ar gae Ysgol Rhydypennau<br>am 2.30 o’r gloch |

Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael at yr apêl ‘Bwyd i Bosnia’ fore Sadwrn, 5 Mawrth.

Llanwyd yn agos i hanner cant o focsys bananas i’r ymylon, a derbyniwyd £198 at y tanwydd ar gyfer taith Eric Harries i Bosnia.

Diolch i Aelodau’r Grŵp Help Llaw am y paratoi trwyadl, am weini yn y festri fore Sadwrn, ac i’r gwŷr a lwythodd y cyfan mor ddeheuig ganol dydd.

### *Mynwent y Garn*

Mae’r fynwent yn edrych yn lliwgar iawn erbyn y Pasg. Diolch i bawb sydd wedi bod wrthi’n tacluso’r beddau, ac i Emlyn Rees ac eraill am blannu’r holl gennin Pedr ar ochrau’r llwybrau. Gobeithiwn y bydd gennym ddigon o arian i orffen tario’r llwybrau erbyn yr haf.

*Y Deg Gorchymyn*

*Yn ddiweddar bu i sianel 4 ymofyn am ddeg gorchymyn mwy cyfoes na'r rhai a roddwyd i Moses ar fynydd Sinai. Rhestrir isod y deg ddaeth i'r brig.*

*Sut maent yn cymharu â'r gwreiddiol yn eich barn chi?*

*Mae'n debyg fod y gorchymyn cyntaf ymhell ar y blaen i'r gweddill.*

1) Gwna i eraill fel y dymunet i eraill wneud i ti

2) Cymer gyfrifoldeb am dy weithredoedd

3) Na ladd

4) Bydd yn onest

5) Na ladrata

6) Gwarchod a meithrin dy blant

7) Gwarchod yr amgylchedd

8) Cymer ofal o'r diamddiffyn

9) Paid byth â bod yn dreisgar

10) Gwarchod dy deulu

*Gweddiwn*



O ganol ein bywyd braf, cysurus, y codwn ein llais atat Ti, Arglwydd. Er i ni yn aml gymryd cysuron ein bywyd yn ganiataol, fe geisiwn heddiw ddiolch i Ti amdanynt.

Am gysur cartref ac aelwyd, am fwyd a diod a dillad, am fendith ein technoleg a'n gwyddoniaeth a medr meddygaeth dda, Arglwydd, diolch i Ti.

Ond tydi bywyd pawb ddim yr un fath, Arglwydd, hyd yn oed yn ein cymdeithas ni. Cofiwn am blant sydd yn byw mewn teuluoedd lle mae tlodi ac angen; am bobl ifanc sydd â bywyd yn ddiflastod i gymaint ohonynt, a llawer ohonynt yn byw ar strydoedd ein trefi mawr; cofiwn am y canol oed sydd yn gorfod ysgwyddo beichiau cyfrifoldeb galwedigaeth a theulu ac sydd yn teimlo'r baich yn llethol ar adegau; deuwn â'r hen ger dy fron, llawer ohonynt yn teimlo'n unig a di-werth.

Y dyddiau hyn, fe gofiwn yn arbennig am amaethwyr ein gwlad yn eu siom a'u digalondid.

Edrychwn y tu allan i'n cymdeithas ni, Arglwydd, ar ein byd, a sylweddolwn o hyd fod yna bobl sy'n newynu, pobl wedi eu dal yng nghanol rhyfel, pobl sy'n ffoaduriaid, pobl sy'n ddi-gartref.

Dad, wrth gofio hyn, cyffwrdd ni â'th Ysbryd. Helpa ni i weddïo'n daer, i weithio'n ddi-flino, i roi yn hael, i gynllunio'n ddoeth er mwyn sicrhau byd heb dlodi, newyn, dioddefaint, anghyfiawnder nac ofn.

Rho i ni ewyllys i dderbyn dy orchmynion di, i ufuddhau i'th lais, i ymddiried yn dy gariad ac i roi ein hunain yn llwyr i Ti. Amen.

## ***Y GROGLITH***



Arglwydd, mor benwan y bûm!
Yn pengrasu uwchben geiriau gras,
Yn ceisio credu y gallai gweithredu cariad
A byw hunan-aberthol
Orchfygu casineb a dofi'r bwystfil.
Heddiw, mae hoelion yn dâl am ei haelioni,
A gwawd a gwaed yw gwobr ei gariad.

Penwan, Arglwydd?
A geiriau'i faddeuant yn glanhau
Düwch fy nghalon oer.
Penwan? A llef fuddugoliaethus ei 'Gorffennwyd!'
Yn sialens i fy myw arwynebol.
Penwan? A thynerwch ei ddwylo
'Ar ddeupen garw'r groes'
Yn fy nenu i, – a'r byd yn grwn
I gylch ei gariad di-ollwng.
"............... a thystion ŷm ni
Mai gobaith yr oesau yw Croes Calfari".

**Mai**

| | |
|---|---|
| **1** | Arwyn Pierce |
| 4 | Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu<br>Y Garn am 7 o'r gloch |
| **8** | Parch Richard Lewis<br>Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion am 2.30 a 5.30<br>yng Nghapel y Garn<br>Arweinydd: Dr Jamie Medhurst |
| **15** | *Sul y Pentecost*<br>Bugail<br>Cymun yn oedfa'r nos<br>Cynulleidfa'r Noddfa yn ymuno yn y Garn<br>Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol<br>yn dilyn oedfa'r bore |
| 16 | Cyfarfod Swyddogion am 7 o'r gloch |
| 17 | Sasiwn Chwiorydd y De yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth<br>am 2 a 5 o'r gloch |
| **22** | Parch M J Morris<br>Bugail – Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre |
| **29** | Richard Llwyd Jones |

### *Chwiorydd y Garn*

Bu'r chwiorydd yn gyfrifol am drefnu i dderbyn cyfraniadau ariannol tuag at Apêl Tsunami ddydd Sadwrn, 22 Ionawr, a chodwyd y swm o £1,428 tuag at yr apêl.

Derbyniwyd nawdd ariannol o Gronfa Eleri-Amgen 2004/5 tuag at adnewyddu'r gegin, a gobeithir dechrau ar y gwaith cyn bo hir.

Cynhelir Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, eleni ar ddydd Mawrth, 17 Mai, am 2 a 5 o'r gloch.  Y siaradwyr fydd: Dr Gwen Amman Evans, Croesoswallt, a Dr Eryl Wyn Davies, Llanfair P.G.


### *Rhannu Doniau'r Ysbryd*

Ti, Ysbryd Glân, a rydd fywyd:
    galw ni i rannu'n bywyd ag eraill.
Ti, Ysbryd Glân, sy'n ein cryfhau:
    helpa ni i ddwyn cysur i eraill.
Ti, Ysbryd Glân, sy'n ysbrydoli:
    galluoga ni i ysbrydoli eraill.
Ti, Ysbryd Glân, sy'n maddau:
    dyro ras i ninnau faddau'n llwyr.
Ti, Ysbryd Glân, sy'n cyfiawnhau:
    nertha ni i frwydro dros gyfiawnder.
Ti, Ysbryd Glân, sy'n rhoddi tangnefedd:
    gwna ni'n weithredwyr heddwch.

(John H. Tudor, o *Amser i Dduw*, gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

### ***Y PASG***

Mae hi'n dywyll, Arglwydd!
Fe gafodd Uffern barti-dathlu bnawn Gwener d'wetha'.
Cuddiwyd yr haul mewn cywilydd a daeth y nos.
Boddwyd ein breuddwydion gan ddagrau'n siom.
Ciliodd gobaith-yfory-gwell gan blygu'i ben mewn digalondid.
"Ni a feddyliem mai hwn oedd yr un a waredai …"
Ond fe ddiffoddwyd y golau a'r gobaith
Yn dy groeshoelio di.
Daeth carchar marwolaeth a chlo maen-ar-fedd.
Gwacter ac anobaith a bedd ydy bywyd i ni bellach, Arglwydd.



Ond heddiw gwelwn faen wedi ei dreiglo,
Gwelwn olau mewn ogof,
A chofleidiwn, mewn llawenydd,
    egni cariadus
Y Crist Anorchfygol,
Na all marwolaeth ei rwydo
Na bedd ei ddal yn gaeth.
Yr Iesu Byw,
'Pererin yr Oes Dragwyddol',
A fyn dorri trwy bob carchar

***Grŵp Help Llaw***



Bydd Help Llaw yn ailgychwyn brynhawn Mercher, 13 Ebrill, am 2.30 o'r gloch.

Disgwyliwn Tom Davies, Cymorth Cristnogol, i gadw cwmni i ni ar 20 Ebrill, gan mai thema ein gweithgarwch am y tymor nesaf fydd 'Oes Gafr Eto'? Mae geifr yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i rai o'r bobl dlotaf yn y byd, ac mae Cymorth Cristnogol yn cynorthwyo pobl i ail-gylchu geifr. 'Mae teulu yn benthyg gafr. Maent yn cael budd o'r llaeth y medrant ei yfed a'i werthu, a thail i roi ar y cnydau. Pan ddaw'r afr â myn, maent yn dychwelyd un ac yn gwerthu neu gadw'r gweddill. Ac felly â'r cylch yn ei flaen.'

Bwriadwn gefnogi Cymorth Cristnogol gyda'r ymgyrch yma. Dewch i wrando ar Tom Davies, ac fe gewch gyfle i'w holi a mwynhau paned gyda'n gilydd.

***Capel Horeb, Penrhyn-coch***

Brynhawn Sul, 17 Ebrill, bydd Susan Williams ac Elise Gwilym yn canu mewn gwasanaeth arbennig am 2.30 o'r gloch.

Ym mis Hydref y llynedd, lansiwyd CD gyntaf Susan 'Fel yr Eryr' a bydd CD Elise o ganeuon Cristnogol, caneuon o fawl, addoliad a defosiwn, yn cael ei rhyddhau ar 23 Ebrill.

Mae'r ddwy yn ymweld ag eglwysi a chapeli a gwyliau Cristnogol yng Nghymru ac yn cymryd rhan mewn oedfaon gan rannu'r Newyddion Da ar gân. Croeso cynnes i bawb.

## Ebrill

**3** Parch Stanley Lewis

6 Cyfarfod y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Yr Arglwydd Elystan Morgan: 'Y Garn ac Atgofion Bore Oes'

Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
Seion, Aberystwyth, am 7 o'r gloch

**10** Miss Beti Griffiths
Oedfa i'w threfnu

13 Grŵp Help Llaw yn ailgychwyn am 2.30 o'r gloch

Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
Bethel, Aberystwyth, am 7 o'r gloch

**17** Bugail
Ethol blaenoriaid yn oedfa'r bore
Gweinyddir y cymun yn oedfa'r bore

20 Prynhawn yng nghwmni Tom Davies, Cymorth Cristnogol, am 2.30 pm dan ofal y Grŵp Help Llaw. Croeso cynnes i bawb

Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
Soar, Llanbadarn, am 7 o'r gloch

22 Noson Goffi'r Chwiorydd yn y festri am 7 o'r gloch
Stondinau yng ngofal y Blaenoriaid

**24** Mrs Beti Wyn Holmes

Rihyrsal i'r plant ar gyfer y Gymanfa Ganu
Y Garn am 2.30 o'r gloch

27 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
Horeb, Penrhyn-coch, am 7 o'r gloch